

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Hoff Gân Gymraeg Dysgwyr

Geirfa

bro fy mebyd	<i>the area where I was bought up</i>	cynhyrchydd (cynhyrchwyr)	<i>producer(s)</i>
cenedl (cenhedloedd)	<i>nation(s)</i>	cynefin(oedd)	<i>habitat(s)/diversity(-ies)</i>
gorsedd(au)	<i>throne(s)</i>	Dydd y Farn	<i>the Day of Judgement</i>
gwawr(iau)	<i>dawn(s)</i>	enaid (eneidiau)	<i>soul(s)</i>
gwyddbwyll	<i>chess</i>	taeog(ion)	<i>serf(s)</i>
wybren	<i>awyr</i>	ymerawdwr (ymerawdwyr)	<i>emperor(s)</i>
y fagddu	<i>utter darkness</i>		
ymerodraeth(au)	<i>empire(s)</i>		
annog	<i>to encourage</i>	crasboeth	<i>scorching hot</i>
awgrymu	<i>to suggest</i>	digalon	<i>depressed/disheartened</i>
bloeddio	<i>gweiddi'n uchel</i>	ysblennydd	<i>splendid/grand</i>
caniatáu	<i>to allow</i>		
dihoeni	<i>to weaken/to waste away</i>		
hollti	<i>to split</i>		
lifo	<i>to flow</i>		
rhuo	<i>to roar</i>		
seboni	<i>to lather/to flatter</i>		
bod yn drech na fi	<i>to be too much for me</i>	o blith	<i>from (amongst)</i>
er gwaethaf	<i>despite</i>	rŵan hyn	<i>right now (gogledd)</i>
gerbron	<i>in front of/in the presence of</i>	yn seiliedig ar	<i>based on</i>

Cyflwyniad

Ym mis Medi a mis Hydref, gofynnodd BBC Radio Cymru pa un oedd hoff gân Gymraeg dysgwyr. Roedd tiwtoriaid Cymraeg wedi dewis deg cân i'w rhoi ar restr fer ac wedyn cafodd dysgwyr gyfle i bleidleisio dros eu hoff gân o blith y deg yma. Ar 12fed Hydref, cafodd canlyniad y bleidlais ei gyhoeddi ar raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru a chawson ni glywed pa gân enillodd deitl 'Hoff Gân Gymraeg Dysgwyr'. Bydd cyfle i glywed y tair cân uchaf ar y rhestr yn yr uned hon ac i ddysgu mwy am y caneuon a'r artistiaid sy'n eu canu.

Y Rhestr Fer

Dyma'r deg cân oedd ar y rhestr fer ar gyfer y bleidlais. Dych chi wedi clywed y caneuon hyn? Neu dych chi'n gwybod rhywbeth am y grwpiau neu'r cantorion? Pa gân dych chi'n meddwl oedd rhif un?

Gwyneth Glyn – Adra

Colorama – Dere mewn

Sŵnami – Dihoeni

Elin Fflur – Harbwr Diogel

Candelas ac Alys Williams – Llwytha'r Gwn

Eden – Paid â Bod Ofn

Bryn Fôn – Rebal Wîcend

Yws Gwynedd – Sebona Fi

Huw Chiswell – Y Cwm

Dafydd Iwan ac Ar Log – Yma o Hyd

Gwrando a siarad 1 – Gwyneth Glyn

1. Byddwch chi'n clywed Gwyneth Glyn yn sgwrsio gyda Beti George am sut cafodd y gân *Adra* ei recordio ar ddechrau ei gyrfa yn gantores. Ar ddechrau'r darn, mae Gwyneth yn siarad am gyd-ddigwyddiad ac yn dweud:

“O’n i’n digwydd bod yn byw ar yr un stryd”

Parwch ddau hanner y brawddegau isod i greu brawddegau cyflawn yn cynnwys ‘..digwydd bod yn...’.

Ro’n i’n digwydd bod yn yr archfarchnad...	..pan ddaeth hen ffrind i sefyll ar y platfform wrth fy ochr i.
Ro’n i’n digwydd bod yn gwrando ar y radio yn y car...	..â chwaer-yng-nghyfraith cefnder mam Elin Fflur.
Ro’n i’n digwydd bod yn aros am drên...	..ar y diwrnod roedd o i fod i gael cyfarfod pwysig efo’r bos.
Roedd y tywydd yn digwydd bod yn braf...	..pan ffoniodd fy ngŵr i ofyn i fi ddod â blawd a menyn gartref.
Roedd o’n digwydd bod adra’n sâl...	..ar ddiwrnod cynta’r gwyliau.
Roedd hi’n digwydd bod yn aelod o’r un côr...	..pan glywais i fy chwaer yn siarad ar y newyddion.

2. Yn y darn, mae Gwyneth yn siarad am ei ffrind ac yn dweud:

“Hi ddaru’n annog i i recordio”.

Sut basech chi’n ysgrifennu **“ddaru’n annog i”** mewn Cymraeg mwy ffurfiol, a sut basai pobl yn eich ardal chi yn dweud hyn?

Meddyliwch am bobl sydd wedi bod yn ddylanwad ar eich bywyd chi mewn rhyw ffordd, a dwedwch mai nhw wnaeth eich annog chi i wneud rhywbeth, e.e.:

Fy athrawes Cemeg wnaeth fy annog i i astudio gwyddoniaeth.

Fy mhartner ddaru’n annog i i ddechrau dysgu Cymraeg.

3. Wrth ddweud bod rhywun wedi ymateb mewn ffordd emosiynol iawn, mae Gwyneth yn dweud ei fod **yn ei ddagrau** ac **wedi’i gyffwrdd**. Newidiwch yr ymadroddion hyn i siarad am bobl wahanol:

Roedd o yn ei ddagrau

Roedd o wedi’i gyffwrdd.

Roedd hi _____

Roedd hi _____

Ro'n i _____

Ro't ti _____

Ro'n ni _____

Ro'ch chi _____

Ro'n nhw _____

Ro'n i _____

Ro't ti _____

Ro'n ni _____

Ro'ch chi _____

Ro'n nhw _____

4. Wrth i chi wrando ar y clip am y tro cyntaf, gwrandewch am enwau'r bobl ganlynol:

Luned Emyr

Dyl Mei

Ray Gravell (Grav)

Sut mae'r bobl yma yn rhan o stori'r gân *Adra*?

Cynhyrchydd cerddoriaeth wnaeth wahodd Gwyneth i'r stiwdio i recordio'r gân.	
Cyn-chwaraewr rygbi a chyflwynydd radio oedd yn hoff iawn o'r gân.	
Ffrind agos oedd yn byw gyda Gwyneth Glyn pan ysgrifennodd hi'r gân.	

5. Pam aeth Gwyneth i siop elusen *Pet Rescue*?

6. Pam doedd Grav ddim yn hapus i chwarae'r gân ar ei raglen radio pan glywodd e hi'r tro cynta?

7. Wrth iddi adrodd y stori, sut mae Gwyneth yn dweud y pethau isod?

Es i i un o siopau elusen Caernarfon _____

Daeth Dyl Mei o hyd i mi _____

Fy helpu i ar ddechrau fy ngyrfa _____

Do'n i ddim yn caniatáu i fi fy hun sylweddoli... _____

Basai hynny wedi bod yn drech na fi _____

Adra – Gwyneth Glyn

1. Ar ôl i chi glywed *Adra*, ceisiwch gofio pa ganeuon gan artistiaid eraill sy'n cael eu dyfynnu:



Adra

"*There is a town in North Ontario*",
meddai Neil Young yn ei gân.

"*Sweet home Alabama*",
meddai Skynyrd 'rownd y tân.

"Rwy'n mynd yn ôl i Flaenau Ffestiniog, ie..."
meddai'r hen Debot Piws.

"*Take me home, country roads*",
meddai Denver - ond be' 'di'r iws?

"Does unman yn debyg i adra",
meddan nhw wrtha fi.
Does unman yn debyg i Adra, na.
Ond mae Adra'n debyg iawn i chdi.

Dwn i ddim lle dw i'n mynd,
Dwn i ddim lle dw i 'di bod.
Sgin i'm syniad lle dw i rŵan hyn
A Duw a wŷr lle dw i i fod.
Dw i 'di cysgu dan sêr yn y Sahara,
Ac aros ar fy nhraed drwy'r nos ym Mhrâg.
Dw i 'di dawnsio ar fynydd hefo ffrindiau newydd,
A deffro ar awyren wag.

"Does unman yn debyg i adra",
meddan nhw wrtha fi.
Does unman yn debyg i Adra, na.
Ond mae Adra'n debyg iawn i chdi.

Fy nghynefin yw fy nefoedd,
A bro fy mebyd yw fy myd.
'Nabod fa'ma cystal â fi fy hun,
Felly pam dw i ar goll o hyd?
Sgin i'm map, a sgin i'm arwydd.
A sgin i'm "rough guide" ar y daith.
Dw i'n cau fy llygaid ac agor fy enaid
A dilyn lân dy lais.
Dw i'n cau fy llygaid ac agor fy enaid
A dilyn lân dy lais.

"Does unman yn debyg i adra",
meddan nhw wrtha fi.
Does unman yn debyg i Adra, na.
Ond mae Adra'n debyg iawn i chdi.

2. Yn y gân, mae Gwyneth yn dweud ei bod hi ddim yn gwybod 4 peth. Beth ydy'r 4 peth a sut mae hi'n dweud hyn (3 gwahanol ffordd)?
- i. _____
- ii. _____
- iii. _____
- iv. _____
3. Sut mae hi'n dweud 'dw i wedi...', a beth ydy'r 4 peth mae hi wedi eu gwneud?
- i. _____
- ii. _____
- iii. _____
- iv. _____
4. Sut mae hi'n dweud 'does dim... gyda fi' / 'does gen i ddim...', a beth ydy'r 3 peth sydd ddim gyda hi?
- i. _____
- ii. _____
- iii. _____



Siaradwch

- Ble mae Adra/Gartre i chi?
- Dych chi wedi symud eich cartref sawl gwaith? Dych chi wedi symud yn bell, neu wedi aros yn yr un ardal?
- Dych chi'n dal i feddwl am fro eich mebyd fel Adra/Gartref?
- Beth sy'n gwneud cartref i chi?

Sebona Fi – Yws Gwynedd

Band roc ydy Yws Gwynedd, sy'n cymryd eu henw o enw'r prif leisydd, Ywain Gwynedd. (ie, Ywain, nid Owain!). Dydy'r band ddim wedi chwarae'n fyw ers 2017 – ro'n nhw'n hynod boblogaidd bryd hynny ac yn denu cynulleidfaoedd mawr o bobl ifanc i'w gigs. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn honno, daeth y gynulleidfa fwya erioed i Maes B ar y nos Sadwrn pan oedd Yws Gwynedd yn cloi'r noson.

Mae Radio Cymru yn dal i gael llawer o geisiadau i chwarae caneuon Yws Gwynedd. Maen nhw'n dal yn boblogaidd felly, yn arbennig y gân *Sebona Fi*, fel mae canlyniad y bleidlais hon yn ei ddangos.

Mae 'seboni' yn gallu golygu gorchuddio rhywbeth â sebon, neu yn ffigurol, mae'n golygu gor-ddweud pethau neis er mwyn i rywun deimlo'n dda (*to flatter*). Does dim ots pa ystyr sydd gan Yws Gwynedd - cân i godi hwyl ydy *Sebona Fi*. Mae'n ein hannog i beidio poeni gormod am bethau diflas bywyd ac i fwynhau'r pethau da:

'Cos da ni gyd yn rhedeg fel rhyw lygod mawr,
Oes sgen ti hanner awr, sebona fi,
A cofia'r un hen petha sydd yn poeni pawb,
Ond pridd yn y pendraw ydan ni

O ma bywyd môr braf,
Blas y grawnwin yn gryf yn y gwin.
A'r cwmni'n dda...



Siaradwch

- Dych chi wedi clywed rhai o ganeuon Yws Gwynedd?
- Dych chi wedi bod mewn gig Cymraeg - Maes B, efallai?
- Ar beth fyddwch chi'n gwrando pan mae eisiau cân i godi'ch hwyliau?
- Dych chi'n arfer mynd i weld cerddoriaeth fyw? Dych chi'n gweld eisiau hynny yn ystod cyfnod y pandemig?

Breuddwyd Macsen

Milwr Rhufeinig o Sbaen oedd Macsen Wledig - neu Magnus Maximus yn Lladin. Daeth e'n **Ymerawdwr** Rhufain yn y flwyddyn 383. Mae chwedl Breuddwyd Macsen yn **seiliedig ar y** dyn yma. Mae'r chwedl yn hen iawn; gallwch chi weld fersiwn ohoni hi yn Llyfr Gwyn Rhydderch yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Dyma'r stori ...

Un bore, aeth Macsen Wledig i hela gyda thri deg dau o frenhinoedd ar hyd dyffryn Afon Tiber, sy'n llifo trwy Rufain. Erbyn canol dydd, roedd y tywydd yn **grasboeth**, felly aeth pawb i orffwys. Cwmpodd Macsen i gysgu'n drwm, a dechreuodd e freuddwydio.

Roedd e'n mynd ar daith bell bell – dros yr Alpau, trwy Ffrainc, ac yna dros y môr mewn llong aur i Ynys Prydain. Cerddodd i ogledd-orllewin yr ynys a gweld castell **ysblennydd**.

Aeth i mewn i'r neuadd, a gweld dau ddyn ifanc golygus yn chwarae **gwyddbwyll**. Ar bwys y ddau ddyn, roedd hen ŵr yn **cerfio** darnau **gwyddbwyll**. Ac yn eistedd ar **orsedd** ar bwys yr hen ŵr, gwelodd e'r ferch harddaf yn y byd.

Cododd y ferch a dod ato fe. Rhoddodd Macsen ei freichiau o gwmpas ei gwddf. Ond yna – dihunodd e!

Am ddyddiau ar ôl hynny, doedd Macsen ddim eisiau gwneud unrhyw beth ond cysgu, er mwyn ceisio gweld y ferch eto. Dechreuodd pobl boeni amdano fe. Doedd e ddim yn gwneud ei waith a doedd gyda fe ddim diddordeb yn ei **ymerodraeth**.

Gofynnodd y brenhinoedd beth oedd yn bod, a dywedodd e wrthyn nhw am ei freuddwyd. Penderfynon nhw anfon negeswyr i bedwar ban y byd am dair blynedd i chwilio am y ferch. Ar ôl blwyddyn o chwilio, doedden nhw ddim wedi dod o hyd iddi hi, ac roedd Macsen mor **ddigalon** ag erioed.

Ond, **awgrymodd** un o'r brenhinoedd fod angen dechrau chwilio yn y lle buodd Macsen yn cysgu. A dyna wnaethon nhw, a mynd ar daith: dros yr Alpau, trwy Ffrainc, a dros y môr i Ynys Prydain nes dod o hyd iddi hi yn y gogledd-orllewin. Ond gwrthododd y ferch ddod gyda'r negeswyr i Rufain. "Os yw Macsen yn fy ngharu i, rhaid iddo fe ddod i chwilio amdana i ei hunan!" meddai hi.

Felly, aeth Macsen a'i filwyr i Brydain a dod o hyd i'r ferch yng Nghaer Seiont (sef Caernarfon heddiw). Ei henw hi oedd Elen Lwyddog. Ei thad – Eudaf – oedd yr hen ŵr yn cerfio darnau **gwyddbwyll**, a brodyr Elen – Cynan a Gadeon – oedd y ddau ddyn ifanc yn chwarae **gwyddbwyll**.

Priododd Macsen ac Elen, ac adeiladodd Macsen dri chastell iddi hi: yr un mwyaf yng Nghaernarfon, a'r ddau arall yng Nghaerllion a Chaerfyrddin. Gofynnodd Elen iddo fe adeiladu ffyrdd hefyd, i gysylltu'r cestyll â'i gilydd – sef Sarn Helen. Hyd heddiw, Ffyrdd Elen Lwyddog yw enw llawer o ffyrdd Rhufeinig Cymru.

1. Pa arddodiaid sy'n cael eu defnyddio gyda'r berfau hyn yn y darn:

chwilio _____

dod o hyd _____

cysylltu _____

2. Beth yw ystyr 'pedwar ban y byd'?

3. Sut teithiodd Macsen a'i negeswyr?

_____ yr Alpau, _____ Ffrainc, a _____ i Ynys Prydain

Siaradwch

- Ydych chi'n cofio'ch breuddwydion chi?
- Ydych chi'n breuddwydio mewn lluniau? Lluniau lliw neu ddu a gwyn?
- Ydych chi'n breuddwydio yn Gymraeg?

Yma o Hyd – Dafydd Iwan ac Ar Log

Mae'r gân **Yma o Hyd** gan Dafydd Iwan ac Ar Log yn sôn am Macsen Wledig. Mae hi'n gân boblogaidd iawn, ac yn ail anthem genedlaethol i lawer o Gymry. Mae hi'n anthem hefyd i gefnogwyr tîm rygbi'r Scarlets ac mae cefnogwyr pêl-droed Cymru wedi ei chanu hefyd.

Wrth wrando ar y gân y tro cyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw:

yn genedl gyfan	wele ni!	yr wybren	gwangalon
taeog	y fagddu	y wawr	gerbron

1. Wrth wrando eto, llenwch y bylchau yn y pennill olaf

_____ i Facsen Wledig
Adael ein _____ yn un darn
A bloeddiwn gerbron y _____
'Mi fyddwn yma _____ Ddydd y Farn!'
Er _____ pob Dic Sion Dafydd
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i _____
Byddwn _____ hyd ddiwedd amser
A bydd yr iaith Gymraeg _____ !

2. Heb edrych ar eiriau'r gân, ysgrifennwch y rhifau hyn mewn geiriau:

1600	_____
383	_____

3. “Ry’n ni yma o hyd.”

Mae ‘yma o hyd’ yn golygu ‘yn dal yma’ (*still here*).

Ydych chi’n gwybod beth yw ystyr yr ymadroddion yma sy’n defnyddio ‘hyd’?

hyd a lled	_____
dod o hyd i	_____
o hyd ac o hyd	_____
hyd yn oed	_____
hyd y gwn i	_____
hyd heddiw	_____
ar hyd y nos	_____

4. “Er gwaetha pawb a phopeth...”

Gyda’ch partner, meddyliwch am frawddeg yn cynnwys ‘er gwaetha’, ac ysgrifennwch hi fan hyn:

Yna, llenwch y bylchau yn y tabl yma:

cysefin	cymharol	eithaf
	gwaeth	gwaetha
	gwell	
bach		
		mwya

5. Mae’r ail bennill yn cynnwys llawer o ferfau gorchmynnol yn y trydydd person. ‘Dyn ni ddim yn eu defnyddio nhw ar lafar yn aml, a pheidiwch poeni am eu dysgu nhw heddiw! Dyma’r berfenwau – beth yw eu hystyr nhw?

chwythu	_____
rhuo	_____
hollti	_____
gweiddi	_____
llifo	_____
llyfu	_____

Siaradwch

- Ydych chi'n mwynhau canu gyda phobl eraill?
- Ydy cerddoriaeth yn bwysig i greu awyrgylch mewn gemau?
- Pa mor bwysig yw canu i godi ysbryd tîm? Dych chi'n gweld eisiau clywed y dorf wrth wyllo chwaraeon yn ystod pandemig Covid-19?
- Allwch chi feddwl am ganeuon eraill sy'n cael eu cysylltu â chwaraeon?
- Beth dych chi'n feddwl o'r 3 cân uchaf yn siart y Dysgwyr? Fyddech chi'n dewis cân Gymraeg wahanol yn rhif 1?

Yma o Hyd

Dwyt ti'm yn cofio Macsen
Does neb yn ei nabod o;
Mae mil a chwe chant o flynyddoedd
Yn amser rhy hir i'r cof;
Pan aeth Magnus Maximus o Gymru
Yn y flwyddyn tri-chant-wyth-tri
A'n gadael yn genedl gyfan
A heddiw: wele ni!

Cytgan:

Ry'n ni yma o hyd
Ry'n ni yma o hyd
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd
Ry'n ni yma o hyd
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd

Chwythed y gwynt o'r Dwyrain
Rhued y storm o'r môr
Hollted y melltd yr wybren
A gwaedded y daran encôr
Llifed dagrau'r gwangalon
A llyfed y taeog y llawr
Er dued yw'r fagddu o'n cwmpas
Ry'n ni'n barod am doriad y wawr!

Cofiwn i Facsen Wledig
Adael ein gwlad yn un darn
A bloeddiwn gerbron y gwledydd
'Mi fyddwn yma tan Ddydd y Farn!
Er gwaetha pob Dic Sion Dafydd
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw
Byddwn yma hyd ddiwedd amser
A bydd yr iaith Gymraeg yn fyw!

Er mwyn dathlu'r ffaith i 'Yma O Hyd' ennill y bleidlais, bydd Dafydd Iwan yn cynnal cyngerdd Nadolig arbennig i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg nos Iau, 17 Rhagfyr am 8pm ar Facebook/learn Cymraeg a sianel AMAM. Cofiwch wyllo.



Gig Nadolig gyda **Dafydd Iwan**

Dyddiad: 17 Rhagfyr

Amser: 8:00pm – 8:45pm

**Ar [Facebook/learncymraeg](https://www.facebook.com/learncymraeg)
a [sianel AMAM](#)**



**Cyfle (chance)
i glywed hoff
gân dysgwyr
Cymru - Yma
o Hyd.**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Uywodieth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn